



#### **48. CYFARFOD MAIR (Yr Atgyfodiad)**

Helô. Fy enw i yw Mair, ac rwyf yma i adrodd fy stori. Ond yn gyntaf, rwyf am rannu cyfrinach â chi. Pan dderbyniais i'r gwahoddiad i ddod yma i'ch cyfarfod bu bron i mi ddweud 'na'. 'Byddaf yn sicr o'u diflasu,' meddwn wrthyf fy hunan. Bydd unrhyw un sydd wedi darllen y Testament Newydd eisoes yn gwybod amdanaf.' Ac yna cofiais fod yna lawer o wragedd o'r enw Mair yn y Testament Newydd a'i bod yn hawdd cymysgu rhyngddynt ac felly penderfynais ddod wedi'r cyfan.

Felly dyma fi, yn barod i ateb eich cwestiynau am Mair. Nid Mair mam yr Iesu wyf fi. Na Mair mam Iago a Ioan. Na 'chwaith y Fair yr arferai Iesu ymweld â hi ym Methania – chwaer Martha a Lasarus. Mair Magdalen ydw i – yr un a iachodd Iesu.

Cyn i mi gyfarfod Iesu doeddwn i ddim yn rhyw iach iawn. A dweud y gwir doeddwn i ddim yn dda o gwbl. Nid anhwylder corfforol oedd arnaf. Doeddwn i ddim yn ddall nac yn fyddar nac wedi fy mharlysu fel rhai o'r bobl a iachawyd gan Iesu. Salwch ysbrydol oedd arnaf i, ac roedd mor ddrwg fel mai prin y gwyddwn i pwy oeddwn i na beth roeddwn i'n ei wneud. 'Cadwch yn ddigon pell oddi wrth y Mair Magdalen yna. Mae'r diafol ynddi hi.' Fel

yna y byddai pobl yn siarad.

Ac yna daeth Iesu, yr unig berson i mi ei gyfarfod erioed oedd yn medru deall fy ymddygiad gorffwyll. 'Helpa fi, plis helpa fi.' Bwriais fy hun ar lawr wrth ei draed. Dododd ei ddwylo arnaf – dwylo tyner a charedig – a gorchmynnodd i'r ysbrydion drwg fy ngadael. Roedd pobl yn dweud wedyn i'm pryd a gwedd newid yn llwyr mewn mater o eiliadau. Y cwbl a wn i yw fy mod wedi teimlo'n rhydd am y tro cyntaf mewn blynyddoedd.

Felly, beth roeddwn i am ei wneud â'r rhyddid newydd hwn? Wel, roedd yr ateb yn ddigon amlwg. Roedd arnaf fi gymaint i'r Iesu, felly penderfynais ei ddilyn ef. Ond wyddoch chi beth? Mae bron pawb rwyf wedi siarad â hwy'n gallu enwi o leiaf pedwar o ddyinion oedd yn ddisgyblion i Iesu. Ac mae'n wybyddus i bawb fod gan Iesu ddeuddeg o ddyinion i'w gynorthwyo â'i waith. Ond os holwch chi'r rhain am y gwagedd does ganddynt ddim syniad. Eto, roedd yna griw o wragedd yn dilyn Iesu gan roi cefnogaeth ariannol iddo ef a'i dîm. Dyna i chi fi, fy ffrind Joanna, a Swsanna ffrind arall i mi. A hefyd Mair, mam Iago a Ioan, a nifer o ferched eraill. Fel y deuddeg, roedden ni'n credu fod Iesu'n athro ardderchog. Fel hwy, roedden ni'n edrych ymlaen am yr amser pan ddeuai'n frenin.

Ac yna, mewn mater o ddyddiau, dyma'n holl fyd yn chwalu'n deilchion. Mae'n debyg eich bod yn gwybod pam. Does dim angen i mi adrodd hanes yr hyn a ddigwyddodd i Iesu. O edrych yn ôl, mae'n debyg y dylem fod wedi sylweddoli'n gynharach. Wedi'r cyfan fe wyddem ei fod wedi ennyn cynddaredd yr awdurdodau crefyddol. Gwyddem eu bod am ei waed. Ond wnaethon ni erioed feddwl y byddent yn llwyddo.

Dydd y croeshoeliad oedd dydd gwaethaf fy mywyd. Roeddwn i yno gyda Mair ei fam a Mair mam Iago a Ioan. Fe welsom y cyfan – yr hoelion, y goron ddrain. Am chwe awr enbydus gwelsom Iesu'n dioddef ar y groes. Gwelsom yr awyr yn tywyllu. Clywsom ei waedd am gymorth oddi wrth Dduw. Gwelsom ei ben yn syrthio ymlaen yn llipa wrth iddo farw.

Roedd y cyfan yn artaith llwyr. Ond o leiaf wedi'r dioddef roedd yna rywbeth y gallwn ei wneud. Unwaith i'r milwyr drywanu'r

waywffon yn ei ystlys, ac unwaith y gwyddwn ei fod wirioneddol yn farw, cyfarfûm â'r gwragedd eraill i baratoi'r peraroglau i rwbio ar ei gorff. Wrth gwrs ni allem fynd â hwy at y bedd ar unwaith gan ei bod yn Sabath drannoeth. Felly trefnwyd i fynd at y bedd ben bore Sul.

Bu meddwl am gael gweld Iesu un tro arall yn foddion i'm cynnal dros y pedair awr ar hugain nesaf. Roedd yn rhaid i mi f'atgoffa fy hunan drwy'r amser mai buddugoliaeth oedd ei farwolaeth. Efallai fod yr awdurdodau crefyddol wedi ei ladd. Ond roedd ei ddaioni ef a'i awdurdod ysbrydol wedi disgleirio trwy'r cwbl hyd y diwedd.

Yna galwodd Joanna heibio ar ei ffordd i'r synagog. 'Mae ganddon ni broblem,' dywedodd wrthyf. 'Mae'r Phariseaid yn ofni y bydd disgyblion Iesu'n ceisio dwyn y corff. Felly mae Peilat wedi danfon milwyr arfog i warchod y bedd. Mae carreg enfawr yn ein rhwystro rhag cael mynediad i'r bedd.'

Roeddwn yn benderfynol. Doeddwn i ddim am adael i gynlluniau'r Phariseaid fy rhwystro. Pe bai angen byddwn wedi llorio'r milwyr fy hunan a llogi tîm o geffylau i lusgo'r garreg o'r ffordd. 'Peidiwch â phoeni. Rydyn ni'n sicr o ganfod ffordd i mewn,' addewais.

Ac wrth gwrs fe wnaethom. Heb unrhyw ymdrech. Pan gyraeddasom y bedd y bore canlynol doedd dim golwg o'r garreg na'r un milwr i'w weld yn unman. Wedi mynd i mewn i'r bedd cawsom fwy fyth o sioc. Nid oedd corff Iesu yno 'chwaith. Roedd wedi diflannu.

Am yr hanner awr nesaf roedd pawb mewn stad o sioc. Er i ddau ŵr mewn gwisgoedd llachar ymddangos i ni a dweud fod Iesu wedi atgyfodi, roedd y cyfan yn ormod i ni ei amgyffred. Un funud gobeithiwn fod y gwŷr mewn gwisgoedd yn dweud y gwir a'i fod wirioneddol yn fyw. A'r foment nesaf yn credu fod y corff wedi cael ei ddwyn.

Dechreuais feichio crio, gan aros y tu allan i'r bedd wedi i'r merched eraill fynd. Adref hefyd yr aeth Pedr ac Ioan.

Ac yna fe ddigwyddodd.

Roedd cymaint o ddagrau wedi cronni yn fy llygaid fel i mi fethu â'i adnabod i ddechrau. Meddyliwn mai'r garddwr ydoedd a bûm

yn parhblu rhywbeth am y corff wedi diflannu ac na wyddwn ble i ddechrau chwilio.

‘Mair,’ meddai.

A'r foment y clywais y llais hwnnw, fe wyddwn.

Roedd Iesu gyda mi yn yr ardd. Yn fyw ac yn iach. Ond yn fyw mewn ffordd newydd – yn fyw am byth ac wedi concro angau.

Ac felly dyna ni. Dyna fy stori. Ac os ydych chi erioed wedi meddwl beth oedd y geiriau cyntaf a lefarodd Iesu ar fore Sul y Pasg, yna rwy'n gobeithio y cofiwch mai fy enw i ydoedd. Rwy'n gobeithio hefyd y cofiwch pa un o'r nifer o wragedd a enwyd Mair yn y Testament Newydd wyf i. Ond peidiwch â phoeni os byddwch yn anghofio. Nid pwy wyf i a beth ddigwyddodd i mi sydd yn bwysig. Iesu sy'n cyfrif.

Fe atgyfododd oddi wrth y meirw.

Ond yn fwy na hynny, mae'n rhannu'r bywyd newydd atgyfodedig ymhlith pawb sy'n ymddiried ynddo. Felly, gallwch chi a fi goncro angau hefyd!

**HYD:** 6 munud

**NEGES:** Fe goncrodd Iesu bechod a marwolaeth.

**DARLLEN:** Seiliwyd y stori hon ar Luc 8: 1–3; Ioan 19: 25; Luc 23: 55–56; 24: 1–7; Ioan 20: 11–18.

### **ADRODD Y STORI I GRŴP:**

Monolog ddramatig yw'r stori hon. Yn ddelfrydol bydd angen dau berson i'w hactio, un i gyflwyno'r ymwelydd arbennig (gan roi ychydig gliwiau i helpu'r gwrandawyr ddyfalu pwy yw hi) ac i ddiolch iddi wedyn, a'r ail (wedi gwisgo i fyny) i chwarae rhan Mair.